WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2008-09

Mehefin 2009

**Awduron: Kevin Thomas ac Amanda Hughes** **Cyf: 414A2009**

# Asesiad o Archwilio Mewnol 2008-09

# **Cyngor Gwynedd**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Mae gan Gyngor Gwynedd (y Cyngor) Wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol. Mae'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau Cod Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA. Fodd bynnag, mae gan Bennaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol rai cyfrifoldebau gweithredol sydd ddim yn gyson â safon annibyniaeth. Hefyd mae rhai agweddau lle nad oes cydymffurfiad llawn wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r safonau wrth ymgymryd â gwaith archwilio, adrodd a pherfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd. | 4 |
| **Argymhellion** | 6 |
| **Atodiadau** | |
| Safonau ac agweddau ar Archwilio Mewnol | 7 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiad o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Mae gan Gyngor Gwynedd (y Cyngor) Wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol. Mae'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau Cod Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA. Fodd bynnag, mae gan Bennaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol rai cyfrifoldebau gweithredol sydd ddim yn gyson â safon annibyniaeth. Mae hefyd rhai gwendidau lle nad oes cydymffurfiaeth llawn wedi ei gyflawni wrth ymgymryd â gwaith archwilio, cyflwyno adroddiadau a pherfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd

1. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) a'r Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 610 yn ei wneud yn ofynnol i ni ystyried p'un a yw trefniadau rheolaeth ariannol fewnol Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn ddigonol. Gan fod Archwilio Mewnol yn elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol rydym yn cwblhau asesiad blynyddol o'i berfformiad.
2. Rydym wedi asesu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn ei safonau proffesiynol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer Chartered Institute of Public Finance Accountants' (CIPFA) *Code of Practice for Internal Audit in Local Government in the United Kingdom 2006.* Lle y bodlonir y safonau hyn, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio dibynnu ar ei waith pan fyddwn yn dogfennu neu'n profi systemau ariannol y Cyngor fel rhan o'n harchwiliad o gyfrifon. Penderfynir ar y lefel o ddibyniaeth ar sail canlyniadau adolygiad o'r gwaith hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahanol agweddau a gwmpesir gan bob safon ar gael yn Atodiad 1.
3. Nodir ein hasesiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn pob un o'r safonau yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: Roedd archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o agweddau'r safonau**

| Safon ac agweddau | | Cyrhaeddwyd y safon/Sylwadau |
|---|---|---|
| 1 | **Cwmpas yr Archwiliad Mewnol** | Do am 2008-09<br>Ar gyfer 2009-10, fe fydd angen diweddaru gorchwyl archwilio mewnol, a fe fydd hyn yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio mis Mehefin. |

| Safon ac agweddau | | Cyrhaeddwyd y safon/Sylwadau |
|---|---|---|
| 2 | **Annibyniaeth** | Yn rhannol. Yn ogystal mae gan Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfrifoldebau gweithredol am risg, yswiriant a thwyll budd-daliadau ac ef yw dirprwy swyddog Adran 151 y cyngor. Nid yw hyn yn gyson gyda'r safon sydd yn datgan na ddylai y pennaeth archwilio mewnol cael cyfrifioldebau gweithredol. Rydym ar ddeall nad yw y Cyngor am newid swyddogaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol ag am rheoli y risg yma. Serch hyn ni fydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio yn llawn gyda'r safon tra mae'r trefniant gweithredol yma mewn lle. |
| 3 | **Moeseg i archwilwyr mewnol** | Do |
| 4 | **Pwyllgor Archwilio** | Do |
| 5 | **Cydberthnasau** | Do |
| 6 | **Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus** | Do |
| 7 | **Strategaeth Archwilio a Chynllunio** | Do |
| 8 | **Cyflawni gwaith archwilio** | Yn rhannol. Mae staff Archwilio Mewnol yn trafod ac yn cytuno ar y nodyn briffio ar gyfer archwiliadau unigol gyda rheolwyr perthnasol, ond ni wnaeth y Cygor cyflwyno brîff ysgrifenedig ffurfiol hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.<br>O adolygiadau ffeil ar bedwar archwiliad, rydym yn adnabod bod oediad sylweddol rhwng cychwyn y gwaith a chyhoeddi'r adroddiad terfynol yn 75% o achosion. |
| 9 | **Gofal Proffesiynol Priodol** | Do |
| 10 | **Cyflwyno Adroddiadau** | Do |
| 11 | **Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd** | Yn rhannol. Mae Pennaeth Archwilio mewnol wedi cyhoeddi llawlyfr archwilio mewnol yn Chwefror 2009 sydd yn cyd fynd ag ymarfer da. Yn 2009/2010 fe fydd gweithredu y llawlyfr yma yn cyfrannu tuag at cwrdd y safon.<br>Wrth adrodd ar ganran y gwaith archwilio sydd wedi ei gyflawni ar gyfer adrodd perfformiad, mae archwiliadau gyda statws "adroddiadau drafft" a "gwaith maes ar y gweill / wedi gwblhau" yn cael ei cynnwys ar un cyfanswm a archwiliadau wedi "cwblhau."<br>Mae perygl i'r perfformiad ag adroddir gael ei gamddehongli gan Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. |

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Sicrhau bod yr ymarferiad a gyflwynir yn ddiweddar o gytuno a dosbarthu brîff ysgrifenedig i rheolwyr yn cael ei weithredu. |
| A2 | Sicrhau bod yr archwiliadau yn cael eu cwblhau mewn da bryd. |
| A3 | Gwella adrodd y gwybodaeth perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn glir ac yn adlewyrchu gwir lefelau gweithgaredd. |

# Atodiad 1

## Safonau ac agweddau ar Archwilio Mewnol

| Safon ac agweddau | |
|---|---|
| 1 | **Cwmpas yr Archwiliad Mewnol**<br>• Cylch gorchwyl<br>• Cwmpas y gwaith<br>• Gwaith arall<br>• Twyll a llygredd |
| 2 | **Annibyniaeth**<br>• Egwyddorion annibyniaeth<br>• Annibyniaeth sefydliadol<br>• Statws Pennaeth Archwilio Mewnol<br>• Annibyniaeth archwilwyr mewnol unigol<br>• Annibyniaeth contractwyr yr archwiliad mewnol<br>• Datganiad o ddiddordeb |
| 3 | **Moeseg i archwilwyr mewnol**<br>• Pwrpas<br>• Cywirdeb<br>• Gwrthrychedd<br>• Cymhwysedd<br>• Cyfrinachedd |
| 4 | **Pwyllgor Archwilio**<br>• Diben y Pwyllgor Archwilio<br>• Cydberthynas Archwilio Mewnol â'r Pwyllgor Archwilio |
| 5 | **Cydberthnasau**<br>• Egwyddorion cydberthnasau da<br>• Cydberthnasau â rheolwyr<br>• Cydberthnasau ag archwilwyr mewnol eraill<br>• Cydberthnasau ag archwilwyr allanol<br>• Cydberthynas â rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill<br>• Cydberthnasau ag aelodau etholedig |
| 6 | **Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus**<br>• Staffio'r Archwiliad Mewnol<br>• Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus |
| 7 | **Strategaeth archwilio a chynllunio**<br>• Strategaeth archwilio<br>• Cynllunio Archwiliadau |
| 8 | **Cyflawni gwaith archwilio**<br>• Cynllunio<br>• Dull<br>• Cynnal aseiniadau archwilio |

| Safon ac agweddau | |
|---|---|
| 9 | **Gofal Proffesiynol Priodol**<br>• Egwyddorion Gofal Proffesiynol Priodol<br>• Cyfrifoldebau'r archwilydd unigol<br>• Cyfrifoldebau Pennaeth Archwilio Mewnol |
| 10 | **Cyflwyno adroddiadau**<br>• Egwyddorion cyflwyno adroddiadau<br>• Cyflwyno adroddiadau ar waith archwilio<br>• Archwiliadau dilynol a chyflwyno adroddiadau<br>• Cyflwyno adroddiadau blynyddol a chyflwyno barn archwilio |
| 11 | **Ansawdd ac effeithiolrwydd perfformiad**<br>• Egwyddorion, ansawdd ac effeithiolrwydd perfformiad<br>• Sicrwydd ansawdd a gwaith archwilio<br>• Perfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk